Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gyfun Penweddig
Ffordd Llanbadarn
Llangawsai
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3QN

22/07/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Gorffennaf 2026

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod yr ymweliad interim â'r ysgol ar y 1af a'r 2il o Oorffennaf 2026. Roeddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i:

- Gynnal trafodaethau gydag arweinwyr a staff am eu gwaith hunanwerthuso a gwella, a'u gwaith i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig  disgyblion
- Siarad â disgyblion a gwrando ar eu hadborth am yr ysgol
- Ymweld â sampl fach o wersi mewn pynciau ar draws y cwricwlwm
- Craffu ar sampl o waith disgyblion
- Craffu ar sampl o ddogfennaeth ysgol berthnasol
- Arsylwi gwersi ar y cyd ag arweinwyr a thrafod prif ganfyddiadau'r gweithgareddau hyn

## Ffocws yr ymweliad

## Pa mor effeithiol yw'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant?

Yn ystod yr ymweliad, diddorol oedd deall sut mae arweinwyr wedi mynd i'r afael â datblygu diwylliant agored o hunanwerthuso a gwelliant parhaus. Clywsom gan staff sut mae sefydlu prosesau clir a strwythuredig wedi helpu pawb i ddeall y disgwyliadau a'u rolau yn well. Mae'n ymddangos bod arweinwyr yn casglu tystiolaeth uniongyrchol yn

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

deillio o amrywiaeth o weithgareddau sicrhau ansawdd. Gwelsom enghreifftiau buddiol o sut mae arweinwyr yn crynhoi prif ganfyddiadau'r gweithgareddau sicrhau ansawdd er mwyn eu rhannu gyda staff a llywodraethwyr. Roedd yn bositif gweld sut mae arweinwyr yn ystyried yn briodol eu gwerthusiadau er mwyn pennu blaenoriaethau addas ar gyfer gwella.

Roedd yn braf gweld sut mae'r gwaith datblygu'r model addysgeg wedi gwreiddio a sicrhau cysondeb yn yr addysgu ar draws yr ysgol. Clywsom gan staff sut maent yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o gyfleoedd datblygiad proffesiynol buddiol. Mae hyn yn cynnwys datblygu medrau arwain rheolwyr canol drwy gynllun 'hyfforddi' (coaching) a gwerthuso gwaith yr ysgol ar y cyd.

Byddai'n ddefnyddiol i'r arweinwyr ystyried:

- I ba raddau mae gwerthusiadau arweinwyr yn canolbwyntio ar yr hyn y mae disgyblion yn ei gyflawni a'r cynnydd y maent yn ei wneud, yn hytrach nag ar y ddarpariaeth ei hun?
- Sut bydd arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'n fwy manwl ar gyfer gwella'r prif feysydd i'w datblygu?

## Sut mae'r ysgol wedi mynd ati i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion?

Yn ystod yr ymweliad, roedd yn ddefnyddiol clywed sut mae sylw penodol wedi cael ei roi i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion. Mae athrawon yn cael eu hannog i gynllunio'n bwrpasol fel bod disgyblion yn cael cyfleoedd amrywiol yn y pynciau perthnasol. Clywsom sut mae athrawon wedi elwa o hyfforddiant mewnol sydd yn cynnig strategaethau penodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu'r medrau hyn. Mae defnydd o'r egwyddorion ysgrifennu cytûn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ysgrifennu estynedig mewn pynciau tu hwnt i'r Gymraeg a Saesneg.

Mae'r blaenoriaethau yn y maes wedi cael eu hadnabod ar sail canfyddiadau arweinwyr o'r gweithgareddau sicrhau ansawdd, lle mae ffocws penodol wedi bod ar y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd. Mae arweinwyr hefyd yn cydweithio ag ysgolion eraill er mwyn cymedroli a dilysu'r canfyddiadau o weithgareddau sicrhau ansawdd. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi addasu'r cod marcio llythrennedd i'w ddefnyddio ar draws y pynciau.

Roedd yn ddiddorol clywed am y ffordd mae'r tîm anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn adnabod yn gynnar y disgyblion hynny sydd angen cymorth gyda'u medrau ysgrifennu. Maent yn darparu ymyraethau llythrennedd, gan gynnwys ar gyfer gwella sillafu geiriau cyffredin. Mae'r tîm ADY hefyd wedi datblygu pecynnau cymorth Cymraeg a Saesneg (Tŵlcit) i gynorthwywyr dysgu. Mae'n cynnwys ffurfiau ysgrifennu wedi'u symleiddio er mwyn eu helpu wrth gefnogi disgyblion.

Byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Pa mor dda y mae athrawon ar draws y cwricwlwm yn cynllunio gweithgareddau addas sy'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau disgyblion i ysgrifennu'n estynedig?
- Pa mor dda mae'r athrawon yn asesu cynnydd y disgyblion yn y medrau ysgrifennu?

Diolch eto am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad. Rydym yn dymuno'n dda i'r ysgol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6674048

Yn gywir

**Lowri Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros dro